

Dweud eich dweud. Helpwch i lunio gwasanaethau iechyd a lles ar gyfer Cwm Llynfi

Annwyl rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid

Pa wasanaethau iechyd a lles fyddai'n gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg eisiau clywed gan deuluoedd ar draws Maesteg a Chwm Llynfi wrth iddo ddatblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Iechyd a Lles newydd, o'r radd flaenaf, yn Oakwood Drive, ger Heol Ewenni, Maesteg – yn amodol ar gymeradwyaeth ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Beth gallai'r ganolfan newydd ei gynnig?

Mae'r gwasanaethau arfaethedig yn cynnwys:

- Gwasanaeth meddyg teulu – Meddygfa Bron-y-Garn.
- Canolfan Gofal Brys – triniaeth ar gyfer mân anafiadau a salwch, gan gynnwys cyfleusterau pelydr-X.
- Adran Cleifion Allanol – ystod ehangach o glinigau arbenigol ag apwyntiadau.
- Gwasanaethau gofal iechyd cymunedol – gan gynnwys gofal clwyfau a gwasanaethau lymffoedema.
- Gwasanaethau llygaid (offthalmoleg) – gofal llygaid arbenigol.
- Gwasanaethau clyw (awdioleg) – asesu a chymorth clyw.
- Gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol – cymorth i bobl sy'n profi anawsterau iechyd meddwl.
- Gwasanaethau iechyd i oedolion a gwasanaethau awdurdodau lleol integredig – timau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi oedolion.
- Gwasanaethau integredig i blant a theuluoedd – timau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Gwasanaethau iechyd a lles y trydydd sector – lle cymunedol i sefydliadau ddarparu cymorth a chyngor

Pam Oakwood Drive, ger Heol Ewenni?

Ar 21 Mai 2026, cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd Oakwood Drive, ger Heol Ewenni, fel ei safle dewisol. Canfuwyd y byddai ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg presennol, er mwyn darparu ar gyfer ystod ehangach o wasanaethau, yn costio llawer mwy na chyllideb y prosiect oedd ar gael;

roedd heriau hefyd yn codi oherwydd oedran, cyflwr a chynllun yr adeiladau.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer sut y gallai safle presennol yr ysbyty fod o fudd i'r gymuned yn y dyfodol. Nid oes penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ynghylch ei ddefnydd yn y dyfodol.

Cymerwch bum munud i roi eich barn!

Fel rhieni a gofalwyr, rydych chi'n gwybod beth sy'n bwysig i'ch teulu. Mae ein harolwg byr yn gofyn am eich barn ar:

- Pa wasanaethau iechyd a lles sydd bwysicaf i'ch teulu?
- Pa fath o gefnogaeth yr hoffech ei chael yn nes at adref.
- Sut y gallai safle presennol yr ysbyty fod o fudd i'r gymuned yn y dyfodol.

Llenwch yr arolwg byr yma:

Saesneg: https://survey.orlo.app/7efb47df-98b3-490b-8221-1e3192c80255
Cymraeg: https://survey.orlo.app/7efb47df-98b3-490b-8221-1e3192c80255

Bydd eich barn yn helpu i lunio gwasanaethau ar gyfer teuluoedd lleol, heddiw ac ar gyfer y dyfodol. Does dim angen gwybodaeth arbenigol arnoch – rydym ni dim ond eisiau clywed beth sy'n bwysig i chi.

Dysgwch ragor am y cynlluniau a'r digwyddiadau ymgysylltu sydd ar ddod yma

Dyfodol Iach Maesteg – gwybodaeth a diweddariadau

Diolch i chi am ein helpu i adeiladu dyfodol iachach i blant, teuluoedd a chymuned gyfan Cwm Llynfi.

Cofion cynnes,

Tîm Rhaglen Maesteg Dyfodol Iach
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg